

<b>Beth oedd y weithgaredd:</b>	Cynnal presenoldeb ar ran y Mentrau laith ar faes Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed gan gydweithio gyda Menter laith Brycheiniog a Maesyfed	
<b>Dyddiad y weithgaredd:</b>	(gosod Mai 25ain) Mai 28ain - Mehefin 2ail 2018 (tynnu Mehefin 3ydd)	
<b>Bwriad:</b>	Codi ymwybyddiaeth o waith y Mentrau laith yn gyffredinol a hyrwyddo prosiectau y fenter leol ac ymgyrchoedd cenedlaethol.	
<b>Cynulleidfa darged:</b>	Plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd	
<b>Ystadegau:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- <b>3</b> digwyddiad lawnsiad ar y stondin</li> <li>- Dros <b>75</b> o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgaredd flog Dadfocsio</li> <li>- Dros <b>__</b> o blant a phobl ifanc yn chwarae gem Map y Mentrau</li> <li>- Dosbarthu <b>___</b> o nwyddau i blant am wneud gweithgaredd (Map y Mentrau neu Dadfocsio)</li> </ul>	
<b>Gwerthuso</b>	<b>Beth ddigwyddodd</b>	<b>Sut i wella / beth ddysgwyd</b>
Manylion y weithgaredd:	<p>4 Seswin Amser Stori a Chrefft Magi Ann: Ymweliad gan y cymeriad, darllen stori i'r plant, yna cyfle i liwio bathodyn.</p> <p>5 Sesiwn Dadfocsio: Creu flog dadfocsio gan ddisgrifio 'Beth sydd yn y boc?' ar gyfer sianel YouTube.</p> <p>6 Disgo Distaw: Cyfle i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Cymraeg tra'n dawnsio neu ddarllen llyfryn gwyliau'r mentrau.</p> <p>Map y Mentrau: gweithgaredd trwy'r amser i geisio lleoli'r 22 mentrer iaith ar fap, neu i leoli niferoedd siaradwyr Cymraeg ar y map.</p>	<p>Amser Stori yn dda, ac yn ffordd wych o hyrwyddo apiau Magi Ann i rieni.</p> <p>Dal ffordd i wella gyda'r system flog, angen rhywun fel Guto Rhun o Boom i gael plant fod yn hyderus yn cyflwyno. Sain ddim yn wych, gwell defnyddio mic lapel.</p> <p>Disgo Distaw ddim mor boblogaidd a'r llynedd. Efallai fod hyn i'w wneud gyda'r lleoliad, dim gymaint o bobl ifanc yn mynd heibio diwedd y dydd.</p> <p>Gweithgaredd lwyddiannus, ac yn denu sylw. Rhoi freebie iddynt os yn cwblhau wedi gweithio i gael mwy o blant geisio'r gem. Niferoedd siaradwyr yn rhy anodd efallai. Da cael gweithgaredd nad sy'n ddigidol fel 'back up' os yw e.e. y trydan</p>

	<p>Lansiad Clwb Codio: Cered yn lansio eu cynllun gyda Code Club Wales.</p> <p>Lansiad Llyfr ac ap Mr Urdd ar Daith: Menter Brycheiniog a Maesyfed ac Atebol yn lansio gydag amser stori.</p> <p>Lansiad Llyfr Enwau Lleoedd: Menter Brycheiniog a Maesyfed yn rhannu'r llyfryn.</p> <p>Blwch gwirfoddolwyr i gasglu enwau gwirfoddolwyr posib.</p>	<p>yn diffodd.</p> <p>Cered wedi trefnu fferins i ddenu sylw plant yn dda, stondin yn edrych yn dda, ond yn anffodus dim digon o gyfrifiaduron i'r nifer o blant oedd wedi dod i godio.</p> <p>Llwyddiannus iawn. Nifer o deuluoedd wedi dod i wrando ar stori. Person o Atebol yn darllen y stori yn wych. Wedi rhannu nifer fawr o'r llyfrau.</p> <p>Er i'r llyfr fod yn llwyddiannus iawn a sawl person yn dod i'w nol, doedd y lansiad ei hunan ddim yn fyrlymus iawn gan nad oedd dim penodol yn digwydd.</p> <p>Hyn heb weithio, dim digon o sylw a pobl ddim yn barod i fynd ati ar liwt eu hunain i roi eu henwau ynddo.</p>
<p>Cynllunio:</p>	<p>Dechrau trafod gyda Bethan Prie, Prif Swyddog Menter BAM ym mis Rhagfyr 2017. Archebu stondin mis Mawrth.</p> <p>Trefnu Gweithgareddau fis Ebrill/Mai. Ceiswyd gael rhywun o Boom Cymru ar y stondin i gynnal yr weithgared flog ond doedden ni ddim yn ymwybodol bod S4C yn cynnal ardal flog gyda Boom ar eu stondin nhw.</p> <p>Trefnu amserlen staff rhwng MIC a MBAM, gan ddefnyddio staff o fentrau eraill hefyd oedd eisiau cymryd rhan, a threfnu llety a thrafnidiaeth ddiwedd Ebrill - dechrau Mai.</p> <p>Cyhoeddi prosiectau Llyfrynau Enwau Lleoedd a Llyfr ag Ap Mr Urdd fis Mai 2018 gan Menter BAM.</p>	<p>Y broses o sortio talu hanner y stondin rhwng MIC a MBAM yn gymleth gan nad oedd yr Urdd yn fodlon creu 2 anfoneb tan hwyr fis Ebrill.</p> <p>Angen cysylltu o leiaf 3 mis o flaen llaw os am gael partneriaeth fel hyn mewn digwyddiad.</p> <p>Penderfynniad am stondin ac amserlen yn esmwyth iawn. Cydweithio gwych rhwng MIC a MBAM.</p> <p>Da cael rhywbeth gan y fenter leol ond hyn wedi bod yn lot o waith ychwanegol i MBAM ac efallai y lansiadau heb allu bod mor effeithiol o'r herwydd.</p>

	<p>Cais gan Cered i gynnal digwyddiad Codio ar y stondin ddiwedd Mai.</p> <p>Cyfanswm oriau gwaith staff MIC: 111.55 awr (cyfystyr a 14.87 diwrnod gwaith) MERh - 71.55 awr (cynnwys gweithio Gwyl y Banc a penwythnos) HapG - 27 awr (cynnwys gweithio Gwyl y Banc) IH - 13 awr (ar benwythnos)</p>	<p>Dim digon o amser o flaen llaw i wneud yn effeithiol. Ond diddordeb mawr ar y maes i'r pwnc a sawl person wedi dychwelyd i gael sgwrs pellach.</p> <p>Staff MIC wedi gweithio lot fawr o oriau sy'n gallu blino staff ac effeithio ar eu gwaith. Ond mae'n braf i staff MIC fod allan o'r swyddfa ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a chydweithio gyda swyddogion lleol.</p>
<p>Hyrwyddo / Sylw:</p>	<p>Cyhoeddwyd amserlen weithgareddau'r stondin ar Facebook a Twitter MIC wythnos cyn y digwyddiad.</p> <p>Cyhoeddwyd ddatganiad y wasg am lyfryn enwau lleoedd <u>wythnos cyn</u> y digwyddiad. Cafodd sylw ar wefannau <a href="http://leol.cymru">leol.cymru</a> gyda sgwrs ar raglen Aled Hughes, Radio Cymru ar ddydd Llun, 28/05/2018.</p> <p>Cafwyd cyfweiliad gyda staff MIC ar raglen O'r Maes Radio Cymru ar ddydd Mawrth 28/05/2018.</p> <p>Cafwyd cyfwelaid ar raglen deledu Eisteddfod yr Urdd yn hyrwyddo Llyfr ac Ap Mr Urdd ar ddydd Mercher 29/05/2018.</p> <p>Cafwyd ymweliadau gan Weinigod y Gymraeg ac Addysg Gydol Oes, Eluned Morgan AC, a Gweinidog Addysg ac Aelod Cynulliad Lleol i ardal Eisteddfod yr Urdd, Kirsty Williams AC.</p>	<p>Angen gwnued hyn fwy o flaen llaw, rhyw bythefnos yn hytrach nag wythnos.</p> <p>Bethan MBAM wedi cyfweld yn wych gyda nifer yn clywed am y llyfr a galw i'r stondin i'w nol drwy gydol yr wythnos.</p> <p>Dim llawer o amser ond wedi son am y gweithgareddau ar y stondin, Ras yr Iaith a mwy. Gweud y gorau gyda'r amser prin.</p> <p>Nifer wedi gwyllo a nifer o lyfrau wedi cael nol yn dilyn y cyfweiliad. Ymateb da iawn.</p> <p>Ymweliadau llwyddiannus. Wedi gwerthu gwaith y mentrau gan ganolbwyntio ar y flogs, gwirfoddoli a ras yr iaith. Hefyd wedi son am brosiectau MBAM.</p>
<p>Cyllid:</p>	<p>Cyllideb: <b>£3,700</b></p>	

	<p>OND angen i unrhwy nwyddau a deunydd marchnata fod yn ddefnyddiol ar gyfer digwyddiadau a phrosiectau eraill.</p> <p><b>Presenoldeb (standin, llety, fan ayyb)</b> Cyllidwyd: £1,700 Gwariwyd: £1,543.62</p> <p><b>Deunydd Marchnata (pamffledi, flyers ayyb)</b> Cyllidwyd: £500 Gwariwyd: £401</p> <p><b>Nwyddau standin (offer, dodrefn, freebies ayyb)</b> Cyllidwyd: £1,500 Gwariwyd: £1,529.58</p> <p><b>Cyfanswm: £3,474.20</b> <b>Gweddill: £225.80</b></p>
<p>Adborth:</p>	<p><i>“Dim ond am bwt bach oeddwn i yno, ond roedd y llyfrau bach Mr Urdd yn sicr wedi denu diddordeb y plant. Roedd yn dda gweld bwrdd wedi dynnu at blaen y standin a’r swyddogion yn dod allan at bobl yn hytrach nag aros yn ôl a gadael i bobl grwydro heibio. Bob tro i mi basio, roedd yn edrych fel fod gweithgarwch yn mynd ymlaen yno a pawb yn brysur, yn y gorffennol dwi wedi pasio standin a gweld swyddogion yn eistedd o gwmpas ar eu ffonau symudol!! Er mod i ddim yno’n hir, ges i’r vibe bod bwrlwm yno!”</i></p> <p><b>Rhian Davis - Menter laith Fflint a Wrecsam</b></p> <p><i>“Roedd y standin yn dda, dwi’n meddwl – ymddiheuriadau o’n i methu bod na’n fwy aml! Daeth lot fawr o bobl lleol heibio, ac roedd yn gyfle da i bobl cael gweld bod Tudur, Huw a finne’n gweithio gyda mudiad mwy – nid just ni’n tri! Bydden ni byth di meddwl gwneud prosiectau fel ap Mistar Urdd na’r llyfryn enwau llefydd onibai am y pwysau i neud rhywbeth ar y standin, a bod yn onest!! Ond mae’r adborth ar y ddau wedi bod yn bositif, yn enwedig y llyfryn llefydd.</i></p> <p><i>O ran beth oedd yn gweithio – roedd y standin yn edrych yn wych. Mae’r baneri, sofffa, sgrin ayyb yn edrych yn brofesiynol iawn. Roedd digon o bethau’n mynd ymlaen bob dydd, ond dim gormod, chwaith! Magi Ann yn boblogaidd bob dydd, a’r dad-focsio hefyd yn dda i gael rhai hyn i mewn. Odd cal Ras yr laith eleni yn dda i gael trafod da oedolion.</i></p>

	<p><i>Pe taswn i'n neud eto, credu bydden i'n rhoi'r lansiadau am amser gwahanol – mae'r derbyniadau i gyd amser cinio – fallai dylen i di lansio'r llyfryn diwedd pnawn, fallai byddai mwy o bobl lleol di galw heibio.”</i></p> <p><b>Bethan Price - Menter laith Brycheiniog a Maesyfed</b></p> <p><i>“Roedd y cyfan yn edrych yn dda, yn broffesiynol ond hefyd yn gymunedol (ddim rhy 'gorfforaethol'). Mae ein delwedd wedi datblygu CYMAINT yn ystod y cyfnod diweddar - da iawn a llongyfarchiade! ...roedd digon o fynd a dod, a'r swyddogion ar ddyletswydd yn groesawgar iawn. Ma'r 'goodies' quirky yn dda hefyd - yoyo a frisbi, etc - roedd fy mhlant am ddod nôl sawl tro! ... Falle bod angen symleiddio'r map o Gymru ychydig hefyd (o ran bod nier o'r niferoedd yn debyg, a llawer ohonynt hefyd) - fydde hyn yn bosib i wneud yn ddigidol ar sgrîn fawr hefyd falle?</i></p> <p><i>Ma'r Urdd yn fwy o sialens na'r Gen wrth gwrs. Yr unig beth ychydig yn negyddol yn fy marn i oedd y lleoliad (dim bai ni). Roedd fel petae'r stondinau wedi cael eu rhoi naill ochr a ddim ar y prif lwybr. Petai ni wedi bod rhywle fel Cadwyn (ar y gornel ger y Sgrîn fawr), credu bydde hynny wedi bod yn wych. Falle hefyd bod angen i ni edrych am grant i fuddsoddi mewn rhyw fath o 'pod' i gael rhywbeth gwahanol i'r stondinau masnach eraill i gyd. Galle hwn gael ei ddefnyddio gan y Mentrau mewn nifer o ddigwyddiadau wedyn - brand newydd y Mentrau a lle i roi delwedd leol hefyd yn ôl yr angen - rhywbeth i'w ystyried eto falle! Ond diolch am yr holl waith caled yn trefnu a'r gwaith yn ystod yr wythnos hefyd.”</i></p> <p><b>Owain Gruffydd - Menter Bro Dinefwr</b></p>
Casgliadau:	<p>Y weithgaredd wedi bod yn llwyddiannus, wrth ystyried mor brin o staff oeddem rhwng MIC a MBAM. Diolchgar iawn i staff y mentrau eraill am ddod i helpu drwy weithio diwrnod neu ddwy gyda ni.</p> <p>Dechrau'r wythnos wedi bod llawer prysurach gyda bwrlwm ar y stonidin drwy'r dydd.</p>